| | |
|---|---|
| **Maes Blaenoriaeth:** | Yr Economi Sylfaenol – Swyddi o safon uchel a'r sgiliau i'w cyflawni |
| **Arweinydd y polisi yn y tîm tasglu** | Maureen Howell – Sector Cyhoeddus; Phil Lewis – Sector Preifat |
| **Cam gweithredu, fel y nodir yn "Ein Cymoedd, Ein Dyfodol"** | "Cynyddu cyfleoedd i gael swyddi yn yr economi leol sylfaenol – busnesau rydym yn eu defnyddio bob dydd ac yn eu gweld o'n cwmpas, fel manwerthu, gofal a'r diwydiant bwyd." |

| Carreg filltir | Cynnydd |
|---|---|
| **Mawrth 2018** – Nodi a chydgysylltu cyfleoedd i gysylltu gwaith sy'n datblygu llwybrau gyrfa â chyngor ar yrfaoedd, addysg bellach/uwch a rhaglenni cyflogadwyedd, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o lwybrau galwedigaethol ac academaidd. Canolbwyntio'n gyntaf ar sectorau sy'n cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer twf, er enghraifft, iechyd, gofal cymdeithasol ac adeiladu. | Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn cynnwys ymrwymiad i weithio gyda phedwar sector sylfaenol – twristiaeth, bwyd, manwerthu a gofal. Y diben yw deall yr heriau sy'n wynebu'r sectorau hyn a'r cyfleoedd ar gyfer twf ac arloesi sydd ynddynt.<br><br>I gefnogi hyn, mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn ein hymrwymo i ddatblygu cynlluniau galluogi traws-lywodraethol i gynyddu effaith. Mae'n cydnabod bod lle i wella cyfleoedd i gamu ymlaen yn y sectorau hynny ac, yng nghyd-destun y cynlluniau galluogi, byddwn yn ystyried pa gamau pellach y gallwn ni eu cymryd yn y maes hwn.<br><br>Adlewyrchir pob un o'r pedwar sector sylfaenol a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi yng ngwaith Tasglu'r Cymoedd ac, wrth i ni gymryd y camau yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi, byddwn yn ceisio alinio a chydweddu dulliau. Mae cyfarfodydd cychwynnol wedi'u cynnal gyda phob math o bartneriaid mewnol a rhanddeiliaid allanol a bydd y gwaith hwn yn dwysáu dros yr haf.<br><br>Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda chydweithwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru i ddarparu llinell sylfaen cyflogaeth yn sectorau'r economi sylfaenol.<br><br>Yn ystod ail hanner mis Ebrill a gydol mis Mai, cawsom adnodd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Bonang Lewis, i asesu sut y gallwn ni ddangos tystiolaeth ein bod wedi cyflawni'r targed allweddol o symud 7,000 o bobl economaidd anweithgar neu ddi-waith yn y Cymoedd i waith teg, diogel a chynaliadwy – a sut y gellir priodoli hyn i gamau gweithredu Tasglu'r Cymoedd. Byddwn yn sicrhau ein bod yn alinio'r gwaith hwn â gwaith parhaus yr economi sylfaenol sy'n mynd rhagddo gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ar hyn o bryd. |

| | |
|---|---|
| | Gan weithio gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, cynhyrchodd Bonang bapur yn nodi amryw o ffynonellau y gellid eu defnyddio i fesur y targed – gan nodi na allem ddefnyddio dim ond un ffynhonnell ddata, ac argymell amryw o ffynonellau data i adrodd y stori am lefelau cyflogaeth yn y Cymoedd a sut y maent yn newid dros amser, gan gynnwys data'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (APS), data APS hydredol, data monitro polisi a data prosiect/rhaglen unigol. |
| **Mawrth 2018** – Gweithio gyda phartneriaethau sgiliau rhanbarthol a defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur gan y Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol drwy eu cynlluniau a gyhoeddwyd yn ddiweddar er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau yn yr economi sylfaenol ledled y Cymoedd. Nodi entrepreneuriaid a busnesau presennol yn yr economi sylfaenol a fyddai'n manteisio ar becyn cymorth gwell. | Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi Adroddiad Deallusrwydd y Farchnad Lafur Ranbarthol a gynhyrchwyd gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Mae cydweithwyr y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi yn asesu'r data yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r awdurdodau lleol sy'n berthnasol i ardaloedd Tasglu'r Cymoedd.<br><br>Mae cyfarfod gyda swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a Llywodraeth Cymru sy'n arwain wyth maes yr economi sylfaenol a restrir yn y cynllun gweithredu wedi'i drefnu ar gyfer 25 Ebrill i ystyried sut i ddefnyddio'r wybodaeth hon er mwyn nodi pa un o'r wyth maes sydd â'r potensial mwyaf i greu swyddi newydd mewn gwahanol rannau o'r Cymoedd.<br><br>Anogir diwydiant i ymgysylltu â'r Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RLSPs) i sicrhau bod anghenion sgiliau'n cael eu nodi a'u cynnwys yn y Cynlluniau. Er enghraifft, mae David Chapman o UKHA wedi'i enwebu i eistedd ar Bartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel cynrychiolydd y diwydiant Twristiaeth.<br><br>Mewn cyfarfod ar 27 Ebrill a fynychwyd gan aelodau Fforwm Sgiliau Rhanbarthol y De-ddwyrain (Gwesty'r Celtic Manor, Vale Resort, RhCT), UKHA, Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Croeso Cymru, cytunodd David Chapman y byddai UKHA yn arwain y gwaith o sefydlu Grŵp Sgiliau Twristiaeth a Lletygarwch Cenedlaethol, i gynnwys cynrychiolwyr o'r 4 Fforwm Twristiaeth Rhanbarthol a'r 3 Cynllun Sgiliau Rhanbarthol, ynghyd â diwydiant. Gofynnwyd i'r grŵp nodi unrhyw fylchau a materion pellach hefyd.<br><br>Cyfarfu swyddogion y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac arweinwyr sector polisi ar 25 Mai i wneud cynnydd o ran llunio diffiniadau penodol ar gyfer yr wyth sector sylfaenol yng nghynllun gweithredu'r Cymoedd er mwyn pennu meincnodau a monitro cynnydd.<br><br>Mae'r dull yn adlewyrchu'r dull ar gyfer y sectorau blaenoriaeth blaenorol o ran nodi pa rai o'r codau diwydiannol o'r Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) sy'n berthnasol ar gyfer pob un a nodir. Mae hyn yn gofyn am ychydig o waith gan fod yr SIC yn safon ryngwladol ac wedi'i bwriadu at |

| | |
|---|---|
| | ddibenion ystadegol, ac nid yw'n cyfateb i'r ffordd mae sector yn cael ei ystyried at ddibenion polisi o reidrwydd. Er enghraifft, mae'r diffiniad o "adeiladu" yn yr SIC yn eithaf cul – yn ei hanfod, mae'n canolbwyntio ar adeiladu ac atgyweirio, tra bod diffiniad y sector blaenoriaeth yn cynnwys cagliad ehangach o weithgareddau megis cynhyrchu deunyddiau adeiladu, gwasanaeth pensaernïaeth ac ati.<br><br>I symud y gwaith hwn yn ei flaen, gofynnir i swyddogion ystyried y sectorau hynny sy'n gorgyffwrdd â sectorau blaenoriaeth - adeiladu, twristiaeth, ynni, bwyd – dechreuwch gyda'r codau SIC yn niffiniadau'r sector blaenoriaeth ac ystyriwch gyda'r profiad sydd gennym nawr a yw'r codau hynny'n dal i fod yn ddilys neu a oes angen ychwanegu atynt neu ddileu rhai ohonynt. Ar gyfer y pedwar sector newydd - iechyd, gofal cymdeithasol, gofal plant a manwerthu – mae angen i ni ddechrau o'r dechrau. |
| Gorffennaf 2018 – Gweithio gyda'r Bwrdd Gwaith Teg ac ymgysylltu â chyflogwyr ynglŷn â chynllunio'r gweithlu ac arferion cyflogaeth. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo diwylliant sy'n sbarduno gweithleoedd mwy cynaliadwy a chynhyrchiol ac yn atgyfnerthu'r cytundeb economaidd newydd er mwyn hybu cynhyrchiant a sicrhau bod Cymru yn fwy teg a chystadleuol. | Mae diffiniad interim o Waith Teg wedi'i gytuno gyda Phartneriaid Cymdeithasol i'w ddefnyddio yn y Contract Economaidd. Gall y diffiniad hwn newid yn dilyn gwaith y Comisiwn Gwaith Teg sydd wrthi'n cael ei sefydlu ac a fydd yn cyflwyno adroddiad yn ystod gwanwyn 2019. |
| Rhagfyr 2018 – Llunio cynigion sy'n darparu ateb hyblyg i feysydd o'r economi sylfaenol, gan ddefnyddio elfennau o'r cymwysterau sy'n rhan o fframweithiau prentisiaethau. | I'w ddatblygu gyda grŵp swyddogion yr economi sylfaenol yn unol â datblygiad cynlluniau a'u halinio â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. |
| Bob blwyddyn – Cynnal ymgyrchoedd i ddatblygu a hyrwyddo amcanion gyrfa gan ddefnyddio prentisiaethau sy'n hwyluso mynediad ar lefel cymhwyster dau a deilliannau ar lefel cymhwyster tri. | |
| **Sectorau** | |
| **Bwyd** | Mae'r strategaeth bwyd a diod a lansiwyd ym mis Chwefror 2018 ar waith bellach. Mae'n amlinellu camau gweithredu i:<br>• Ennyn mwy o ddiddordeb yn y sector ymhlith pobl ifanc;<br>• Cefnogi'r gwaith o wireddu dyheadau tymor hir<br>• Datblygu gwefan gyrfaoedd<br>• Datblygu rôl llysgenhadon bwyd sy'n cysylltu diwydiant |

| | |
|---|---|
| | ag ysgolion a cholegau<br>• Datblygu'r gwaith o wireddu cyfleoedd eang (e.e. hylendid, technegol a pheirianneg bwyd)<br>Mae ffocws ar wella sgiliau'r gweithlu i alluogi gweithwyr cyflogedig i symud ymlaen o swyddi lefel mynediad.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad yng Nghwmbrân gydag ysgolion i ennyn diddordeb yn y sector. |
| **Twristiaeth** | Mae'r diwydiant Twristiaeth yng Nghymru wedi mynegi'n glir mai'r diwydiant ei hun fydd yn arwain y gwaith o fynd i'r afael â materion sgiliau.<br><br>Mae gan barth twristiaeth Croeso Cymru dudalen sgiliau bwrpasol i'w gwneud hi'n hawdd i'r diwydiant ddod o hyd i wybodaeth am sgiliau, hyfforddiant a chymorth cyllid.<br>https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/sgiliau<br>Mae Croeso Cymru yn parhau i weithio gyda chydweithwyr sgiliau Gyrfa Cymru, Canolfan Byd Gwaith a Llywodraeth Cymru ar faterion sgiliau i sicrhau ein bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am fentrau a rennir gyda'r diwydiant trwy wefannau a chylchlythyrau.<br><br>Bydd ffenestr ariannu arall yn agor cyn hir a fydd ar gael i awdurdodau'r Cymoedd.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig cymorth i fusnesau gyda'r sector twristiaeth ac, yn ddiweddar, darparodd dri gweithdy cyllid a fynychwyd gan dros 60 o gwmnïau. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu canolfan ragoriaeth ar gyfer sgiliau lletygarwch. |
| **Manwerthu** | Mae manwerthu'n cael ei gydnabod fel maes Sylfaenol yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r sector i ddeall ymyriadau sy'n gallu creu amgylchedd priodol i fanwerthwyr ffynnu. Mae swyddogion wedi hwyluso manwerthwyr i fod yn rhan o ddatblygiadau polisi gyda'r gofrestr tybaco; isafswm pris unedau alcohol; treth plastigau; newidiadau i gynllunio canol tref; strategaeth gordewdra; polisi prentisiaethau. Canolbwyntiodd ymgysylltu pellach ym mis Mawrth ar reoliadau gwastraff a newidiadau i bolisi prentisiaeth a sgiliau.<br><br>Mae adborth gan y sector yn nodi nad cymorth busnes uniongyrchol trwy grantiau/benthyciadau yw'r dull a ffefrir. Mae'r amgylchedd gweithredu'n allweddol i ddatblygu'r sector manwerthu. Mae hyn yn cynnwys ardrethi busnes, fframwaith rheoleiddio cyson ac ystyried sut y gall manwerthu ddarparu'r cyflog byw. |
| **Ynni** | Mae Rheolwyr Cynllun ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed Cartrefi Clyd newydd/olynol wedi'u caffael. Penodwyd rheolwr cynllun Nyth newydd ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'r contract newydd wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2018. Penodwyd |

| | |
|---|---|
| | rheolwr y cynllun Arbed ym mis Mai 2018 ac mae'r cynllun wedi dechrau cael ei gyflwyno. Disgwylir y bydd ar waith yn llawn erbyn dechrau mis Medi 2018. |
| **Adeiladu** | Mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r nod o:<br>• Ymgynghori â Dyfodol Adeiladu Cymru a Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr i ddeall materion sy'n allweddol i gwmnïau'r sector adeiladu sy'n gweithredu yn yr ardal VFT – e.e. rheolaeth ariannol a chynlluniau ar gyfer olyniaeth.<br>• Darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau bach a microfusnesau yn y VFT trwy wasanaethau cymorth Dyfodol Adeiladu Cymru a Busnes Cymru.<br><br>Mae gwaith ar y gweill gyda Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a sefydliadau sgiliau a phartner Llywodraeth Cymru i hyrwyddo adeiladu fel gyrfa i unigolion sy'n byw yn yr ardal VFT. |
| **Gofal Cymdeithasol** | Mae 25 i 30 o ddarparwyr gofal sy'n gweithredu yn y sector annibynnol a'r trydydd sector wedi'u nodi i dderbyn cymorth busnes mewn cynllun peilot. Cynhaliwyd cyfarfod gweithdy cychwynnol llwyddiannus ar 15 Chwefror, a chynhaliwyd gweithdy lleol pellach i gynyddu cyfranogiad. Yn dilyn hyn, trefnodd Busnes Cymru gyfarfodydd diagnostig un-i-un gyda darparwyr. Bydd y cynllun peilot hwn yn cael ei werthuso yn ystod yr hydref 2018 gyda'r potensial i'w gyflwyno'n fwy eang.<br><br>Cyfnod 1: deg o sesiynau diagnostig un-i-un wedi'u cwblhau gyda darparwyr annibynnol, a bydd pedair sesiwn bellach yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mehefin. Ar 1 Mai, cynhaliwyd gweithdy rhagarweiniol gyda darparwyr annibynnol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae digwyddiad gweithdy thematig cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer 4 Gorffennaf a bydd rhaglen dreigl o weithdai thematig yn cael ei chynnal dros yr haf. Bydd y gweithdai thematig yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd a'r materion cyffredin o'r sesiynau diagnostig un-i-un. Mae themâu'n dal i gael eu pennu, ond mae'n debygol y byddant yn cynnwys cyngor ar farchnata a hysbysebu, GDPR ac AD. Yn ogystal, mae darparwyr yn cael eu cyfeirio at gymorth sydd ar gael yn rhwydd fel rhan o gynnig Busnes Cymru. Bydd Banc Datblygu Cymru yn mynychu gweithdai hefyd ac yn cynnig cyngor un-i-un i ddarparwyr.<br><br>Cyfnod 2: Mae gweithdy gyda darparwyr trydydd sector yng Nghwm Taf i nodi'r cymorth busnes a fyddai'n ddefnyddiol wedi'i drefnu ar gyfer mis Gorffennaf. Wedi hynny, bydd Busnes Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda darparwyr i ddarparu cyngor a chymorth busnes wedi'i deilwra. |
| **Gofal Plant** | Ym mis Rhagfyr 2017, cyhoeddwyd y cynllun gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y cynllun yw cefnogi twf cynaliadwy yn y sector gofal plant trwy broffesiynoli a gwella sgiliau'r gweithlu a buddsoddi mewn |

| | |
|---|---|
| | gwella capasiti a gallu ar draws y sector. Wrth gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i flaenoriaethu cymorth buddsoddi ar gyfer y sector ac mae swyddogion wrthi'n archwilio amryw o ysgogwyr polisi gyda'r nod o gefnogi twf busnes cynaliadwy a datblygiad y gweithlu.<br><br>O ran datblygu'r gweithlu, mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a Cymwysterau Cymru i ddatblygu cyfres newydd o gymwysterau gofal plant ar gyfer y sector i'w cyflwyno yn 2019. Mae'r cymwysterau newydd yn cael eu datblygu i ddarparu gwell llwybrau datblygu gyrfa ar draws y sector ac i sectorau eraill megis Iechyd ac Addysg.<br><br>Ym mis Ebrill 2018, cynyddodd y cynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach y rhyddhad i ddarparwyr gofal plant. Mae gwaith pellach ar y gweill i archwilio pa gymorth pellach y gellir ei ddarparu. Mae'r gwaith hwn yn rhan o ddull ehangach o ddatblygu cymorth busnes pwrpasol ar gyfer y sector gan weithio gyda Busnes Cymru ac yn cynnwys £100,000 o gyllid a gytunwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i gefnogi busnesau newydd ac ehangiadau a gwarchodwyr plant.<br><br>O dan y cynllun gweithlu 10 mlynedd, rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd i ddatblygu dull mwy penodol o helpu'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant i gael gyrfa yn y sector gofal plant. Bydd y prosiect hwn yn dod i ben cyn bo hir ac mae swyddogion wrthi'n ystyried y camau nesaf. |
| **Iechyd** | Mae swyddogion y tasglu wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddysgu gwersi o'u gwaith gyda Choleg Gwent. Maent yn gweithio i gysylltu'r diffyg gofalwyr cymunedol â'r miloedd o fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gyrsiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gofyn am 60 – 80 awr o brofiad gofalu ymarferol i basio eu cyrsiau. Bydd hyn yn darparu gweithlu posibl ar gyfer gofal cymunedol a fydd yn helpu llif cleifion. Bydd y myfyrwyr yn cael profiad ymarferol a phrofiad gwaith arall am dâl ac yn datblygu eu CV ar gyfer gyrfa mewn unrhyw alwedigaeth neu broffesiwn yn y GIG.<br><br>Bydd sefydlu Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn darparu llawer o gyfleoedd. Er enghraifft, mae gwaith cynnar ar y gweill i ddarparu ysgolion haf i ysbrydoli pobl ifanc o ysgolion yn y Cymoedd trwy roi cyfle iddynt gael blas ar yrfaoedd nyrsio a meddygol. |

| **Risgiau** |
|---|
| Efallai y bydd hi'n cymryd amser i helpu sectorau i ehangu a thyfu ar gyfradd gynaliadwy ac archwilio'r effaith y gall hyn ei chael ar y targed o sicrhau gwaith i'r 7,000 o bobl economaidd anweithgar. |

Efallai na fydd cefnogi pob rhan o'r economi sylfaenol yn darparu'r enillion gorau posibl yn y tymor byr. Efallai y bydd angen ystyried tystiolaeth a chanolbwyntio ymdrechion ar rannau o'r economi sylfaenol sy'n gallu cynnig y cyfleoedd gorau i greu swyddi yn y tymor byr. Bydd angen i'r gwaith gyd-fynd â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

Mae edrych ar rwystrau penodol yn ymwneud â chaffael yn hollbwysig i gefnogi'r economi sylfaenol.

Mae sbarduno egwyddorion craidd ynghylch asedau lleol a rhoi gwell cyfleoedd sylfaenol i bobl ar draws gwasanaethau cyhoeddus yn alinio â gwell gwasanaethau cyhoeddus a hybiau cymunedol. Mae hyn yn dibynnu ar wella ac archwilio capasiti, gan gynnwys nodi rôl y trydydd sector ac alinio gwasanaethau'n barhaus i helpu pobl i gael mynediad at lwybrau gyrfa.

| | |
|---|---|
| **Adroddwyd gan:** | Maureen Howell / Phil Lewis 15 Mehefin 2018 |